**CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU**

**Nos Fawrth, 14 Ebrill 2026, am 7.30 o'r gloch Neuadd Bentref Llanelltyd**

**Agenda**

1. **Presennol**
   Geraint Rowlands, Eleri Wyn Jones, Llinos Rowlands, Seimon Evans, Elfed ap Gomer, Cyngh. Delyth Lloyd Griffiths
2. **Ymddiheuriadau ]**
   Gwenan Morgan Owen, Gari Ellis, Mari Wyn Smith ( Clerc).

2. **Datgan Diddordeb**

3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Mawrth, 2025 – cytunwyd gan bawb oedd yn bresennol fod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn Codi o'r Cofnodion – Mawrth, 2026**

5. **Adroddiad y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

1.Cattlegrid Ffordd Hirgwm – dim adborth heno ond y Cyngor wedi addo glanhau y lleoliad ym Mis Mawrth

2. Arwynebu ffordd Hirgwm ar y rhaglen i gael ei wneud eleni.

3.Cyfarfod Ffermio Bro – trefnwyd ar gyfer 20/5/26 i annog tirfeddianwyr i wneud ceisiadau am grantiau. Gofynnodd Delyth am gymorth i hysbysebu'r digwyddiad ac i roi cymorth ar y noson.

4.Coed wedi eu plannu yn Llanelltyd ar dir y Cyngor heb ganiatâd. Cafwyd cwyn gan etholwyr lleol – bu i'r Cyngor Sir orfodi y tir feddiannwr i sicrhau bod y coed leylandii wedi eu tynnu o'r lleoliad bellach.

5.Coed Bro Cymer – adborth wedi dod fod y coed oedd yn lleoliad y modurdai wedi eu torri. Etholwyr lleol yn rhoi adborth da am y gwaith.

6.Grantiau Gwynedd ar gyfer Cynghorau Cymuned a chymunedau ar gael rwan. Aelodau am wneud cais i gael hysbysfwrdd. Mari i wneud y cais ar y cyd ag aelodau.

7.Giatiau newydd ar lwybrau cyhoeddus yn ardal Tai Cynhaeaf yn ôl Elfed ap Gomer.

8. Caru Coed y brenin - cafwyd diweddariad sef fod dim gwybodaeth eto parthed y ddau gais sydd wedi eu dderbyn gan NRW.

9.Treth busnes – mae Mabon ap Gwynfor wedi bod yn gwrando ar bryderon busnesau yn yr ardal sydd yn ymwneud a busnesau twristiaeth a charafanau yn benodol.

10. Hysting Amaeth wedi ei gynnal yn y Clwb Rygbi yn Nolgellau 30/4/26. Nifer fach o amaethwyr wedi mynychu. Delyth wedi mynychu fel Aelod o NFU Cymru.

6. **Materion Ariannol**

- Talu cyflog y Clerc o £215.20.
- Derbyn taliad o £841.17 gan Gyngor Gwynedd (Cyf: CCG-4439596).
- Talu £157.60 i HMRC (PAYE/YSW yn ymwneud â chyflog y Clerc).
- Angen talu premiwm yswiriant y Cyngor i Zurich (£690.39) – Penderfynwyd ar gyfer y cyfnod 01/06/2026 – 31/05/2027.

7. **Archwilio**

1. Archwilio – mae angen cofnodi yn y cofnodion ein bod wedi ail dderbyn polisïau yn flynyddol gan gynnwys y flwyddyn yma.
2. Mae angen profi ein bod yn mynd drwy'r broses o dderbyn polisïau'n flynyddol.
3. Mae angen rhestr i sicrhau fod yn y cael ei wneud bob blwyddyn.
4. Taflen amser o bryd mae y polisïau yn cael ei derbyn angen ei chyflwyno yn flynyddol i'r Cynghorwyr gan gynnwys y Praesept - yn Rhagfyr gan gynnwys rhesymau pam fod y swm wedi ei dderbyn.

**Gweithred** – Aelodau i wneud amserlen a rhestr i roi i Mari yn cynnwys pob polisi sydd angen ei adolygu yn flynyddol a hefyd esboniad am gynnwys y Praesept.

8.**Un Llais Cymru**

- Un llais Cymru angen cael eu talu am y gwasanaeth ym Mis Mai gan ei fod wedi dod i ben ym Mis Mawrth 2026–

**Gweithred** - Mari i dalu yr hyn sydd yn ddyledus.

- Hyfforddiant Un Llais Cymru - Modiwl cyllid. Cytunwyd fod y Cyngor yn talu i Mari ac eraill i fynychu yn fuan iawn yn y flwyddyn ariannol.

9. **Bancio ar lein** - Mae angen I bawb sydd wedi cael gwahoddiad arwyddo yn mandad yn fuan iawn. – pawb.

10. **Mynwent Llanelltyd** - llwybr angen sylw yn ôl etholwr.

**Gweithred** - Mynwent – Seimon i drafod glanhau y llwybr gyda Ifor Thompson y contractwr.

9. **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** - dim un mater cynllunio wedi dod i law.

10. **Gohebiaeth**

● Hysbysiad gan Gyngor Gwynedd ynghylch cau dros dro Pont Llanelltyd ar 28 Ebrill 2026 ar gyfer ffilmio (disgwylir i'r cau bara rhwng 1 a 3 diwrnod, gyda mynediad i drigolion yn parhau).

● Rhaglen waith Cyngor Gwynedd ar gyfer mis Ebrill 2026 – gwaith ar Lwybrau Troed 7 a 12 yn ardal Tŷ'n y Coed, Tyrnol, Taicynhaeaf – (gosod dwy giât newydd yn lle camfeydd dwy step).

11. **Bioamrywiaeth** - mae coed gan Seimon ar gyfer gwneud y plannu fel a drefnwyd.

12. **Ffyrdd a Llwybrau** - cais wedi dod at Delyth Lloyd Griffiths (CYNG/COUN) ac Elfed Ap Gomer (aelod lleol) fod Mrs Edwards Fferm Borth yn gwneud cais i'r Cyngor Sir i newid cyfeiriad y llwybr cyhoeddus ar dir y fferm. Mae Delyth wedi cysylltu i drafod gyda Gwyn Lloyd Evans yn y Cyngor Sir i gael cyngor.

13. **Materion eraill** –

1. Elfed yn codi mater parthed cerbydau wedi ei gadael yn ardal Tai Cynhaeaf yn barhaol a dros nos – mae y mater wedi cael sylw gan y Cyngor Sir o fewn diwrnod i'r Cyngor ym Mis Mawrth 2026.
2. Bin yn ardal Hen Bont Llanelltyd. Delyth wedi gofyn ir Cyngor (ail gylchu) am fwy o finiau a rhai mwy yn y lleoliad.

14 **Agenda Mis Nesaf.**

1. Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026 – trafodwyd syniadau ar gyfer prosiect posibl mis nesaf sef ystyried bwrdd picnic yn ardal hen bont Llanelltyd.
2. Cronfeydd Cymunedol Eryri – cyfle grant newydd (hyd at £25,000) i gefnogi prosiectau cymunedol; trafod a oes prosiect addas i'w gyflwyno – Delyth am wneud ymholiadau yn y Parc yfory.
3. Ymddiheuriadau Delyth ar gyfer y cyfarfod.